Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Cyfarwyddiaeth Addysg**
Neuadd y Dref, Heol Sain Helen
Abertawe, SA1 4PE
www.swansea.gov.uk

*Gofynnwch am:*
*Llinell Uniongyrchol:*
*E-bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* Medi 2024

Annwyl Rieni a Gwarcheidiaid

Cymerwch amser i ddarllen y llythyr hwn am bresenoldeb ysgol. Wrth i'ch plant ymgartrefu yn ôl i'r ysgol, roeddwn i eisiau manteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa o bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Fel awdurdod lleol, rydym yn blaenoriaethu ac yn cefnogi presenoldeb uchel yn yr ysgol. Credwn fod ***Presenoldeb yn Fater i Bawb*** ac mae'r gred hon yn sail i'n polisi presenoldeb a'n harferion o ddydd i ddydd.

Yn ystod y flwyddyn lawn ddiwethaf cyn y pandemig, roedd presenoldeb yn ysgolion uwchradd Abertawe yn **93.7%** ac roedd presenoldeb ein disgyblion cynradd yn **94.9%** (2018-2019). Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2023-2024, roedd presenoldeb yn ysgolion uwchradd Abertawe yn **88.4%** ac roedd presenoldeb ein disgyblion cynradd yn **91.1%.**

Fel gallwch weld, mae tarfu y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ffigyrau presenoldeb ein hysgolion. Er mwyn rhoi enghraifft ymarferol, mae disgybl sydd â phresenoldeb o **80%** yn methu un diwrnod o ysgol bob wythnos. Rydym yn gwybod y gall presenoldeb gwael yn yr ysgol effeithio ar gynnydd a lles.

| Presenoldeb cyffredinol | Nifer y diwrnodau a gollwyd | Nifer yr wythnosau a gollwyd (yn fras) |
|---|---|---|
| 90% | 19 diwrnod | 4 wythnos |
| 80% | 38 diwrnod | 8 wythnos |
| 70% | 57 diwrnod | 12 wythnos |

Fel rhieni a gofalwyr, rydych chi'n chwarae rhan hanfodol wrth helpu'ch plentyn i ddatblygu arferion presenoldeb da. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod pobl ifanc weithiau'n ei chael hi'n anodd mynychu'r ysgol, boed hynny drwy salwch, pryderon emosiynol, argyfyngau teuluol neu hyd yn oed fethu â gweld pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Rydym yn deall ac yn awyddus i helpu.

Cysylltu yw'r cam cyntaf. Bydd gan ysgol eich plentyn aelod o staff a fydd yn gallu eich cefnogi os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch presenoldeb. Mae gan ysgol eich plentyn Swyddog Lles Addysg (EWO) pwrpasol hefyd sydd ar gael i helpu i gefnogi eich plentyn a'ch teulu pan fydd presenoldeb yn yr ysgol yn is na'r lefelau disgwyliedig. Rydym ar gael i roi cyngor a chefnogaeth ym mhob agwedd ar bresenoldeb.

I dderbyn y wybodaeth hon ar ffurf arall, neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r uchod.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r ysgol neu drwy ddefnyddio ein cyfeiriad e-bost, sydd wedi'i leoli ar waelod y llythyr hwn. Mae gan y Gwasanaeth Lles Addysg wefan hefyd sy'n cynnig cwestiynau cyffredin (FAQs), gan gynnwys cyngor ar gyfrifoldebau cyfreithiol a hysbysiadau cosb; mae'r cyfeiriad hefyd ar waelod y llythyr hwn.

Rydym am weithio gyda theuluoedd i sicrhau bod presenoldeb ysgolion Abertawe yn dychwelyd i'r lefel a welsom cyn y pandemig. Rydym am i'n plant gael y profiadau gorau posibl drwy sicrhau eu bod yn yr ystafell ddosbarth, yn dysgu sgiliau newydd, yn meithrin arferion da, ac yn datblygu cysylltiadau gydol oes gyda'u cyfoedion. Fel y dywedais, ***mae Presenoldeb yn fater i bawb ac mae pob diwrnod ysgol yn bwysig i gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc***. Mae'r awdurdod lleol, ysgol eich plentyn a'r Gwasanaeth Lles Addysg yma i weithio gyda chi a'ch teulu i sicrhau lefelau uchel o bresenoldeb a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch pan fydd pethau'n mynd yn fwy heriol. Cysylltwch â ni a byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i helpu.

Dymunwn dymor newydd hapus i chi.

Cofion

Gwasanaeth Lles Addysg

E-bost: educationwelfareservice@swansea.gov.uk
Gwefan: https://www.abertawe.gov.uk/gwasanaethllesaddysg